Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 4 Hydref 2023, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor. Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 31. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. M. Evans a Mrs D. L. King, a gan Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth sydyn y Cynghorydd Pete Prendergast a thalu teyrnged iddo cyn i'r cyfarfod gynnal munud o dawelwch.

## 32. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MIS MEDI 2023

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1683 | BT | 271.12 | Llinellau ffôn a band eang |
| 1684 | HSBC | 8.00 | Ffioedd banc |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol HW |
| 1697 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,983.51 | Didyniadau talu wrth ennill mis Awst 2023 |
| 1698 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,737.10 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg mis Awst 2023 |
| 1699 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,861.90 | Tâl net mis Medi 2023 |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig 2023/24 – taliad 6 o 10 |
| 1658 | Cyngor am Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 6 o 12 |
| 1700 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 23/24 – taliad 2 o 3 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol GN |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol GN |
| 1659 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 2 o 4 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **51,850.28** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 285.16 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Money Maker (a delir yn chwarterol) | 302.31 |
| HSBC | Llog ar adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| HSBC | Llog ar adneuo 7 diwrnod | 23.03 |
| HSBC | Llog ar adneuo 7 diwrnod | 23.03 |
| HSBC | Llog ar adneuo 7 diwrnod | 23.03 |
| | **Cyfanswm incwm** | **679.58** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo’r adroddiad.*

## 33. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I’R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheolau sefydlog mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd ar Atodlen B (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i’w rhyddhau yn ystod y mis) gan Glerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda’r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1681 | Zoom | System ar gyfer Siambr y Cyngor | 143.88 |
| 1701 | Sandra Williams | Gwasanaethau Cyfieithu | 529.18 |
| 1702 | Barry Hamilton | Ffotograffau sefydlu’r Maer | 145.00 |
| 1703 | Blachere Illumination UK Limited | 56 o oleuadau addurniadol (cynllun newydd ar y colofnau golau) | 37,887.60 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£38,561.78** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r taliadau yn yr atodlen a’u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 34. DIWRNODAU PARCIO AM DDIM

Awgrymodd Clerc y Dref y dylai’r pump diwrnod parcio am ddim fod o ddydd Mercher, 20 Rhagfyr i ddydd Sul, 24 Rhagfyr eleni.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r pump diwrnod a awgrymwyd.*

## 35. SKYFLYER

Gofynnodd y Cynghorydd Keith Jones am gefnogaeth y Cyngor i gael eglurhad ynghylch dyfodol y prosiect SkyFlyer yn y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai Clerc y Dref ysgrifennu at Hamdden Sir Ddinbych Cyf i ofyn am ddiweddariad ynghylch y prosiect.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *ohirio’r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

## 36. GORCHYMYN DIOGELU GWAGLE CYHOEDDUS, PROMENÂD Y RHYL

Gofynnodd y Cynghorydd Keith Jones am gefnogaeth y Cyngor i gyflwyno cais i Gyngor Sir Ddinbych i ddatgelu lefelau gorfodaeth yr gorchymyn uchod gyda'r pwyslais ar faw cŵn.

Atgoffodd aelod y cyfarfod nad oedd Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio gwasanaethau cwmni gorfodaeth preifat mwyach ac felly roedd gorfodi'r gorchymyn yn cael ei adael i'r heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

***PENDERFYNWYD*** *fod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych, Mr Emlyn Jones, i ofyn i Heddlu Gogledd Cymru gynyddu'r gwaith gorfodi yn yr ardal.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *ohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

## 37. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** ***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 38. TWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU: CANOLFAN GROESO'R RHYL

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi ynghlwm) yn dilyn y cynnig arfaethedig i gau'r ganolfan groeso yn ystod tymor y gaeaf oherwydd gostyngiad yn yr incwm a gynhyrchir gan y Ganolfan Groeso ers i nifer o gwmnïau benderfynu gwerthu eu tocynnau eu hunain, er bod nifer yr ymwelwyr yn parhau'n uchel.

Roedd yr aelodau'n cytuno fod y Ganolfan Groeso yn bwysig i'r Rhyl, gyda'r 11,000 a fu ynddi rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023 yn dystiolaeth o hynny, a byddent yn hoffi gweld y ganolfan ar agor y gaeaf hwn.

***PENDERFYNWYD*** *fod Clerc y Dref yn cynnig hanner yr incwm a gollwyd (£7,500) yn y gobaith y gallant sicrhau cyllid i gwmpasu'r £7,500 sy'n weddill o ffynonellau cyllido eraill.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *ohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

## 39. LLYTHYR DRAFFT I'W GYFLWYNO I GYNGOR SIR DDINBYCH

Derbyn, a diwygio fel bo angen, lythyr drafft i'w gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych (copi ynghlwm) i'w ddarllen ar lafar un ai yng nghyfarfod y Cabinet neu yng nghyfarfod y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r llythyr.*

## 40. EITEM YCHWANEGOL: COELCERTH A THÂN GWYLLT CYMUNEDOL Y RHYL

Hysbysodd Clerc y Dref fod Clwb Hamdden a Lles yr Orsaf Dân wedi cadarnhau'r ddiweddar y byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal eleni, a gofynnodd i'r aelodau ystyried cyfrannu'r lefel cyllido arferol o £5,000 i brynu'r tân gwyllt.

Ychwanegodd Clerc y Dref ei fod wedi gwneud ymholiadau ynghylch defnyddio tân gwyllt heb sŵn, fel y gofynnodd yr aelodau y llynedd, ond na fyddent yn cael eu defnyddio gan nad dyna ddymuniad Clwb Hamdden a Lles yr Orsaf Dân, gan eu bod yn teimlo y byddai hyn yn lleihau naws y digwyddiad ac nad oeddynt yn boblogaidd ymhlith y cyhoedd a oedd yn dod i'r digwyddiad.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi Clerc y Dref i wneud y taliad o £5,000.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *ohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

**41. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi diweddu.

Cadeirydd: ………………………

Dyddiad: ………………………